Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

YSGOL GYNRADD WIRFODDOL MYFENYDD
Llanrhystud
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 5AT

Rhif yr Ysgol: 667-3058

Dyddiad yr Arolygiad: 19-21 Hydref 2004

gan

Mr Aled Evans

79226

Dyddiad: 20 Rhagfyr 2004

Dan rif contract Estyn: T/34/04P

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd rhwng 19-21 Hydref 2004. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o dri o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr Aled Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r graddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli holl farnau'r arolygiad yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion eithriadol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da yn gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o gychwyn oed gorfodol ysgol hyd at 18 mlwydd oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd dilyniant ac yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn disgyblion mewn ysgol gynradd sy'n troi 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Cyfeiria Blwyddyn 1 at grŵp blwyddyn disgyblion sy'n troi 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd ac ati. Blwyddyn 13 yw grŵp blwyddyn myfyrwyr sy'n troi 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oed	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oed	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r cwricwlwm cenedlaethol yn cynnwys pedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	Tudalen

Cyd-destun 1

Crynodeb 1

Argymhellion 5

Safonau 5

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni? 5

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant 7

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu? 7

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach? 9

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth I ddysgwyr? 11

Arweinyddiaeth a rheolaeth 12

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol? 12

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau? 13

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau? 14

Safonau a gyflawnir mewn pynciau a meysydd dysgu 15

Cymraeg 15
Mathemateg 16
Hanes 17
Celf 18
Technoleg Gwybodaeth 19
Addysg Gorfforol 20

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad 20

Atodiadau 22

A Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol 22
B Data a dangosyddion yr ysgol 22
C Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol 2004 23
Ch Sail dystiolaeth yr arolygiad 24
D Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu 24

Cyd-destun

Natur y darparwr

Mae'r ysgol gynradd wirfoddol hon yn gwasanaethu pentref Llanrhystud a'r ardal wledig sydd yn union o'i gwmpas, er y daw canran arwyddocaol o'r disgyblion o ardal ehangach. Disgrifia'r datganiad hunanarfarniad yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd a rhyw dau y cant yn unig o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol rhad ac am ddim. Adeiladwyd estyniad at yr ysgol yn ystod 2001 er mwyn helaethu'r gofod ar gyfer plant dan bump.

Daw ychydig dros draean o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg ac yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, mae 89 y cant o'r boblogaeth ysgol yn medru'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol (AALl) ar gyfer ysgolion Categori A, y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf union chwe blynedd yn ôl.

Mae 67 o ddisgyblion amser-llawn (pedair i 11 oed) yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi dilyn addysg gyn-ysgol. Mae'r rhif hwn yn gymharol gyson ers pum mlynedd. Mae rhyw 20 y cant o'r disgyblion amser llawn wedi'u hadnabod fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) er nad oes gan yr un ohonynt ddatganiad o'i anghenion. Rhennir y disgyblion i dri dosbarth.

Mae tri aelod o staff addysgu amser-llawn, gan gynnwys y pennaeth sy'n addysgu am dridiau o'r wythnos. Mae dwy athrawes ran-amser, y naill ar gyfer addysgu disgyblion ag AAA a'r llall i ryddhau'r pennaeth ar gyfer cyfnodau digyswllt.

Nod yr ysgol yw anelu at gydnabod 'urddas a gwerth pob plentyn, i ddarparu cyfleoedd cyfartal a'r addysg orau bosib fel bod pob plentyn yn cyflawni'i botensial ymhob agwedd o'i ddatblygiad o fewn cymuned ofalgar a Christnogol'.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Ymhlith y blaenoriaethau a restrir yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) cyfredol cyfeirir at y materion canlynol:

- Datblygu'r drefniadaeth ar gyfer plant dan bump.
- Amlygu *Llais y Dysgwr* ar draws yr ysgol.
- Cryfhau prosesau hunan-arfarnu ysgol-gyfan.
- Datblygu llyfrynnau asesu.
- Sefydlu cysylltiadau Ewropeaidd ag ysgolion eraill.

Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd yn ysgol dda. Darperir addysg dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol wedi parhau i wella safonau ers yr arolygiad diwethaf. Cytunodd y tîm arolygu â'r barnau a wnaed gan yr ysgol yn y ddogfen

hunan-arfarnu mewn perthynas â'r saith cwestiwn allweddol. Cytunwyd â rhan fwyaf o farnau'r ysgol am y safonau a gyflawnir gan y disgyblion yn y chwe phwnc a arolygwyd. Nid oedd yr arolygwyr yn cytuno â'r farn a ddyfarnwyd gan yr ysgol ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol (CA) 2.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol		Gradd yr arolygiad
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3	Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7	Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

Mae safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau yn ystod gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Safonau cyflawniad y disgyblion	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Canran ar bob gradd	0	100	0	0	0

Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn sylweddol uwch na thargedau Cymru gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru i 95 y cant o safonau i fod yn foddhaol a 50 y cant i fod yn dda neu'n well.

Yn yr arolygiad hwn, arolygwyd chwe phwnc yn CA1 a CA2. Mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Pwnc	CA1	CA2
Cymraeg	2	2
Mathemateg	2	3
Hanes	2	2
Technoleg gwybodaeth	2	2
Celf	2	2
Addysg gorfforol	2	2

Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Yn ôl canlyniadau 2004 mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a

chenedlaethol yn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg yn CA2 ond yn is yn y Gymraeg. O gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol gan ddefnyddio'r dangosydd prydau ysgol am ddim mae perfformiad disgyblion yn CA1 a CA2 yn is na'r canolrif yn y dangosydd pwnc craidd (DPC).

Mae disgyblion yn y tri dosbarth yn cyflawni safonau da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu cymhwyso'r medrau allweddol yn lled hyderus ond maent yn fwy ansicr wrth gymhwyso'u medrau dysgu. Mae eu medrau astudio, gwella'u gwaith eu hunain a threfnu a chyflwyno gwaith yn danddatblygedig.

Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol siarad, ysgrifennu, darllen, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Cyflawnant radd 1 mewn safonau gwrando.

Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau dwyieithrwydd da.

Mae'r rhifau sylweddol sydd â'r Gymraeg yn ail-iaith iddynt yn dod i fedru'r iaith yn rhugl ac yn naturiol. Mae hyn yn nodwedd rhagorol.

Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at y diwylliant o brysurdeb a diwydrwydd sy'n nodweddu'r tri dosbarth yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol.

Mae'r disgyblion a osodwyd ar gofrestr AAA yr ysgol yn cyflawni safonau priodol ac mae amryw ohonynt yn symud oddi ar y gofrestr wedi iddynt gwrdd â'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.

Dros y tri thymor diwethaf mae'r cyfartaledd presenoldeb yn dda ar 96.3 y cant.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Ceir addysgu cyson dda ar draws y ddau gyfnod allweddol. Yn ystod yr arolygiad, roedd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Canran ar bob gradd	5	90	5	0	0

Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru 95 y cant o wersi yn foddhaol a 50 y cant yn dda neu well.

Mae'r addysgu yn dda ymhob dosbarth a chaiff y disgyblion ystod o brofiadau dysgu o safon dda. Mae ansawdd yr addysgu yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna'r disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni.

Mae strwythur a threfniadaeth y gwersi yn dda ac maent yn datblygu ar gyflymder da. Rhennir amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion ar ddechrau gwersi a thrafodir cyraeddiadau yn ystod y sesiwn gloi.

At ei gilydd, nid yw'r ffocws ar waith gwahaniaethol ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon manwl ac anghyson yw safon y marcio.

Mae ansawdd cyffredinol yr asesu yn dda. Yn y pynciau craidd asesir cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn gyson. Mae canlyniadau ystod dda o brofion diagnostig yn cael eu dadansoddi'n dda. Mae'r gweithdrefnau asesu a chadw cofnodion yn y pynciau sylfaen yn cael eu datblygu.

At ei gilydd, mae cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn briodol. Ceir cynlluniau gwaith o safon dda yn y mwyafrif o bynciau. Yn y Gymraeg a'r Saesneg, serch hynny, nid yw'r cynlluniau ysgol-gyfan yn ddigon manwl. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ar draws y pynciau yn ddigon manwl i sicrhau bod y disgyblion cael y profiadau angenrheidiol yn y meysydd hyn.

Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump oed yn hyrwyddo'n llwyddiannus y Canlyniadau Dysgu Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Mae ansawdd y cymorth, y cyfarwyddyd a lles y disgyblion yn dda a llwydda'r ysgol i greu cymuned deuluol agos.

Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cwrdd â gofynion y Côd Ymarfer ac mae'n dda ar y cyfan.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Caiff profiadau'r disgyblion eu helaethu drwy ystod o weithgareddau allgyrsiol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer darparu cyfnodau dyddiol o addoli ar y cyd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Caiff yr ysgol ei harwain yn dda a hyrwyddir y nodau a'r hamcanion a osodwyd iddi yn briodol. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad egniol ac ysbrydoledig i gymuned yr ysgol.

Mae staff yr ysgol yn gweithio'n dda fel tîm ac mae'r ymdeimlad cynhwysol sydd yno yn cyfrannu'n effeithiol at y cydymdrech i gynnal a gwella safonau.

Mae'r corff llywodraethol yn un rhagweithiol ac yn gweithredu'n effeithiol iawn. Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cwricwlwm, maent yn wybodus ynglŷn â bywyd yr ysgol ac mae eu hymweliadau cyson yn rhai cynhaliol.

Mae'r diwylliant hunan-arfarnu yn cael ei feithrin yn dda ac eisoes sicrhawyd bod y staff a'r llywodraethwyr yn ymwneud ag agweddau o'r broses hon. Hyd yma, ni ffurfiolwyd y broses hunan-arfarnu er mwyn mapio'n eglur y gweithgareddau sydd angen i reolwyr yr ysgol ymwneud â nhw dros gyfnod estynedig ac ni ddefnyddir canlyniadau'r hunan-arfarniad i lywio'r blaenoriaethau yn y CDY mewn modd digon cadarn.

Mae'r CDY tymor hir yn ddogfen gynllunio gynhwysfawr sy'n cynnwys nifer o flaenoriaethau priodol ar gyfer yr ysgol. Serch hynny, nid oes digon o ymwybyddiaeth staff gyfan ynglŷn â'i gynnwys na'r cyfeiriad y mae'r cynllun yn ei osod.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

Er bod digon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran, oherwydd diffyg gofod yn gyffredinol yn yr ysgol, ond yn arbennig yn nosbarthiadau CA2, nid yw eu hargaeledd a'r modd y cânt eu cadw, bob adeg yn cyfrannu at ddefnydd effeithiol gan y disgyblion.

Caiff yr adeilad ac iard chwarae'r ysgol eu cadw'n dda ac yn lân. Mae poblogaeth bresennol yr ysgol wedi gordyfu'r gofod yn y neuadd ar gyfer sesiynau torfol o gyd-addoli a hefyd y defnydd a wneir ohoni ar gyfer gwersi addysg gorfforol.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1 gynnal y safonau da, a gwella'r safonau boddhaol drwy roi sylw i'r diffygion a nodir yng nghorff yr adroddiad;

A2 sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd strwythuredig a fydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu, *h.y. medrau astudio, medrau gwella'u gwaith eu hunain, medrau trefnu a chyflwyno gwaith yn annibynnol*;

A3 gysoni'r ymagweddiad ysgol-gyfan at wahaniaethu a marcio gwaith disgyblion.

A4 ddatblygu'r modd cyfredol y mae rheolwyr yn cynllunio gwelliant ysgol gan sicrhau bod y CDY yn ddogfen fwy strategol sy'n arddel cyswllt cadarnach â'r broses o hunan-arfarnu;

A5 barhau i wella digonolrwydd yr adeiladau, yn arbennig o safbwynt yr agweddau canlynol:

- y defnydd a wneir o'r neuadd ar gyfer gwersi addysg gorfforol ac ar gyfer cynulliadau ysgol-gyfan;
- gofod storio adnoddau;
- argaeledd yr adnoddau ar gyfer disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

1. At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a ddyfarnwyd gan yr ysgol iddi'i hun yn yr adroddiad hunan-arfarnu.
2. Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
3. Mae plant y blynyddoedd cynnar yn gwneud cynnydd da ym medrau allweddol gwrando a siarad, ysgrifennu, rhifedd, darllen a defnyddio TGCh.
4. Mae disgyblion yn y tri dosbarth yn cyflawni safonau da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu cymhwyso'r medrau allweddol yn lled hyderus ond maent yn fwy ansicr wrth gymhwyso'u medrau dysgu.

5. Cyflawnant radd 1 mewn safonau gwrando ac mae'r mwyafrif helaeth yn gwrando'n astud gan barchu cyfraniadau eu cyd-ddisgyblion. O ran eu hoed a'u gallu, mae'r disgyblion yn darllen yn gywir, yn rhugl a chyda mynegiant. Mae'r safonau mewn siarad ac ysgrifennu yn dda, ac nid oes unrhyw ddiffygion pwysig.

6. Yn CA1, mae'r disgyblion yn ymateb yn dda i gwestiynau gan gynnig atebion synhwyrol. Maent hefyd yn dechrau dod i ofyn cwestiynau priodol wrth ymwneud â'r gwaith dan sylw. Yn CA2, mae'r disgyblion yn siarad yn hyderus a medrant drafod eu gwaith yn ddeallus. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu i fod yn gyfathrebwyr hyderus ar bapur erbyn diwedd CA2. Serch hynny, ni welwyd digon o enghreifftiau o ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

7. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at y diwylliant o brysurdeb a diwydrwydd sy'n nodweddu'r tri dosbarth yn yr ysgol. Maent yn gydwybodol a glynant wrth eu tasgau'n dda. Serch hynny, mae eu medrau o drefnu a gwella'u gwaith eu hunain yn danddatblygedig ac maent braidd yn ddihyder wrth ofyn cwestiynau ymholgar ynglŷn â'u gwaith.

8. Mae'r dysgwyr yn cyflawni safonau gradd 2 mewn rhifedd; mae ganddynt ddealltwriaeth dda o waith rhif a gwelwyd rhai enghreifftiau o ddisgyblion yn cymhwyso'r medrau hyn o fewn pynciau megis gwyddoniaeth a daearyddiaeth.

9. Gradd 2 yw'r safonau mewn technoleg gwybodaeth. Mae'r disgyblion yn medru defnyddio cyfrifiaduron yn hyderus mewn sefyllfaoedd dysgu amrywiol. Mae disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn defnyddio rhaglenni masnachol yn effeithiol i gefnogi'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn amryw o feysydd. Mae disgyblion CA2 yn medru cyrchu gwybodaeth o'r we yn annibynnol gan ddewis a dethol o'r testun yn briodol.

10. Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau dwyieithrwydd da. Medr disgyblion yn CA2 siarad, darllen ac ysgrifennu yn y ddwy iaith gan symud yn lled gyffyrddus o'r naill iaith i'r llall.

11. Mae'r disgyblion ar frig yr ysgol yn gallu tynnu gwybodaeth o destun mewn un iaith a chrynhoi'r prif bwyntiau mewn iaith arall.

12. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ennill medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd. Maent yn ymagweddu'n gadarnhaol at eu gwaith ac mae'r rhifau sylweddol sydd â'r Gymraeg yn ail-iaith iddynt yn dod i fedru'r iaith yn rhugl ac yn naturiol. Mae hyn yn nodwedd rhagorol.

13. Yn CA2, mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth lled dda o'r cryfderau a'r gwendidau a amlygir yn eu gwaith ond nid yw'r targedau ansoddol a osodwyd iddynt yn eu cyfeirio'n ddigonol i wella'u gwaith eu hunain.

14. Mae'r disgyblion a osodwyd ar gofrestr AAA yr ysgol yn cyflawni safonau priodol ac mae amryw ohonynt yn symud oddi ar y gofrestr wedi iddynt gwrdd â'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.

15. Yn ôl datganiad hunanarfarniad yr ysgol, mae canlyniadau'r asesiad gwaelodlin yn cymharu'n ffafriol â'r canrannau sirol. Mae dadansoddiad yr ysgol yn dangos bod angen targedu iaith lafar disgyblion o'r oed cynharaf.

16. Yn ôl canlyniadau 2004 mae canran y disgyblion ar ddiwedd CA1 sy'n cyrraedd lefelau disgwyliedig cenedlaethol yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a

chenedlaethol yn mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is yn y Gymraeg. O gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol gan ddefnyddio'r dangosydd prydau ysgol am ddim mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd CA1 yn y chwartel isaf yn y Gymraeg ond yn y chwartel uchaf yn mathemateg a gwyddoniaeth.

17. Yn ôl canlyniadau 2004 mae canran y disgyblion ar ddiwedd CA2 sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig cenedlaethol yng ngwyddoniaeth, mathemateg a Saesneg yn uwch na chyfartaleddau cenedlaethol a sirol ond yn is yn y Gymraeg. O feincnodi ag ysgolion tebyg yn genedlaethol gan ddefnyddio'r dangosydd prydau ysgol am ddim, mae perfformiad y disgyblion o dan y canolrif ym mhob pwnc ac yn y DPC. Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae perfformiad disgyblion ar ddiwedd CA2 wedi meincnodi'n is na'r canolrif yn mathemateg a Chymraeg yn gyson.

18. Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol ym mherfformiad y bechgyn a'r merched.

19. Mae ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac o amgylch yr ysgol yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r disgyblion yn dangos parch ac ymwybyddiaeth o anghenion eraill ac yn dilyn esiampl yr athrawon a gweddill y staff yn hyn o beth. Maent yn gyfeillgar ac yn gwrtais i'w gilydd, i'r staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o ddisgwyliadau a rheolau'r ysgol ac yn glynu atynt. Caiff ymddygiad da y disgyblion yn y dosbarth a thu hwnt ei wobrwyo.

20. Mae ymddygiad y disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar yr addysgu a bywyd yr ysgol yn gyffredinol. Nid yw'r ysgol wedi cael achos i wahardd unrhyw ddisgybl o'r ysgol ac ni welwyd achosion o ymddygiad ymosodol na bwlio yn ystod yr arolygiad ond mae gweithdrefnau clir mewn lle petai achosion o'r math yn codi.

21. Dros y tri thymor diwethaf, mae'r cyfartaledd presenoldeb yn dda ar 96.3 y cant heb un achos o absenoldeb anawdurdodedig. Er nad yw'r ysgol wedi gosod targedau ffurfiol ar gyfer presenoldeb, mae'n anelu at o leiaf cynnal y lefel presenoldeb presennol.

22. Mae'r rhieni yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb ynglŷn â phresenoldeb a phrydlondeb ac yn hysbysu'r ysgol mewn unrhyw achos o absenoldeb. Mae'r mwyafrif helaeth o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ac mae'r diwrnod ysgol a'r gwersi yn dechrau ar amser. Cedwir y cofrestri'n daclus ac fe'u monitrir yn gyson gan y pennaeth a'r athrawon; maent yn cwrdd â gofynion statudol cylchlythyr 3/99.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2 : Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddiant a'r asesu?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

23. At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn gradd yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

24. Mae'r addysgu yn dda ymhob dosbarth a chaiff y disgyblion ystod o brofiadau dysgu o safon dda. Mae ansawdd yr addysgu yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna'r disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni.

25. Mae'r athrawon yn fodelau rôl o safon uchel ac mae ganddynt berthynas dda iawn gyda'r disgyblion. Mae'r disgyblion yn ymwybodol o'u disgwyliadau o ran gwaith ac ymddygiad. Caiff gwaith da ei ganmol ac mae'r system dathlu ymdrech ac agwedd at waith yn boblogaidd gan y disgyblion ac yn gwneud cyfraniad pwysig i'w datblygiad.

26. Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o'r pynciau a ddysgant ac o ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Maent yn fodelau iaith da iawn i'r disgyblion eu hefelychu, a chaiff hyn effaith lesol ar allu'r disgyblion i siarad Cymraeg.

27. Gwneir defnydd effeithiol o'r weinyddes feithrin, yr athrawes fro, yr athrawes anghenion arbennig a staff ategol arall ac maent yn gwneud cyfraniad pwysig i ansawdd y dysgu.

28. Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn darparu amgylchedd symbylus, gan gynnwys, arddangosfeydd da o waith disgyblion. Defnyddir ystod o adnoddau gan gynnwys lluniau a gwaith blaenorol disgyblion fel symbyliadau effeithiol i hybu'r addysgu.

29. Mae strwythur a threfniadaeth y gwersi yn dda ac maent yn datblygu ar gyflymder da. Defnyddir ystod briodol o strategaethau addysgu. Rhennir amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion ar ddechrau gwersi a thrafodir cyraeddiadau yn ystod y sesiwn gloi. Caiff y disgyblion gefnogaeth dda yn ystod gwersi. Gwneir defnydd da o gwestiynu ac mae athrawon yn ymyrryd yn effeithiol pan fydd angen wrth i'r disgyblion gwblhau eu tasgau.

30. At ei gilydd, nid yw'r ffocws ar waith gwahaniaethol ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon manwl yng nghynlluniau'r athrawon.

31. Mae ansawdd cyffredinol yr asesu yn dda. Asesir cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn ddyddiol ac yn fwy strwythuredig bob hanner tymor a diwedd cyfnod. Mae canlyniadau ystod dda o brofion diagnostig yn cael eu dadansoddi'n dda.

32. Er bod cyfleoedd asesu yn cael eu nodi yng nghynlluniau tymor-byr athrawon, nid yw tystiolaeth asesu cyfredol yn cyfrannu at gynllunio yn ddigon manwl.

33. Cedwir cofnodion manwl o gyflawniadau disgyblion yn y pynciau craidd ac mae hyn yn gymorth da wrth dracio cynnydd disgyblion. Gwneir defnydd da o'r wybodaeth sydd mewn ffurflenni trosglwyddo disgyblion o un dosbarth i'r llall.

34. Gwneir defnydd da o ffeiliau cofnod cyflawniad disgyblion, sy'n cynnwys canlyniadau profion, enghreifftiau o waith diweddar a thystiolaeth am eu datblygiad personol a chymdeithasol.

35. Mae'r system gosod targedau unigol i ddisgyblion yn gyffredinol dda ac mae'r ysgol yn cyd-weithio'n dda gyda phlant a rhieni wrth osod y rhain. Mae gweithdrefnau mewn lle i ddatblygu sgiliau'r disgyblion o hunan-werthuso.

36. Ceir adborth llafar priodol i ddisgyblion yn ystod gwersi. Anghyson serch hynny yw'r marcio ac yn aml iawn, nid yw yn nodi ffyrdd ymlaen i ddisgyblion.

37. Ceir portffolios o waith wedi'i lefelu yn y pynciau craidd ond yn eu dyddiau cynnar iawn y mae gweithdrefnau asesu a chadw cofnodion yn y pynciau sylfaen.

38. Mae adroddiadau i rieni yn cydymffurfio â gofynion statudol ac ar y cyfan maent o ansawdd da. Maent yn cynnwys gwybodaeth am gyflawniadau disgyblion yn yr holl bynciau a gwybodaeth am eu datblygiad personol a chymdeithasol. Cyfeirir at elfennau i wella yn y pynciau craidd.

39. Mae gan yr ysgol bolisi clir ar gyfle cyfartal. Derbynia pob disgybl yr un cyfleoedd beth bynnag eu cefndir, rhyw neu abledd.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

40. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn gradd yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

41. Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump oed yn hyrwyddo'n llwyddiannus y Canlyniadau Dysgu Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Yn CA1 a CA2, cynigia'r ysgol gwricwlwm eang a chytbwys sy'n berthnasol i anghenion y plant. Mae'n cwrdd â gofynion yr holl bynciau gan gynnwys addysg grefyddol.

42. At ei gilydd, mae cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn briodol. Ceir cynlluniau gwaith o safon dda yn y mwyafrif o bynciau. Yn y Gymraeg a'r Saesneg, serch hynny, nid yw'r cynlluniau ysgol-gyfan yn ddigon manwl nac yn rhoi cyfeiriad digon effeithiol i'r cynllunio ar gyfer datblygiad sgiliau mewn gwaith llafar, darllen ac ysgrifennu.

43. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ar draws y pynciau yn ddigon manwl i sicrhau bod y disgyblion cael y profiadau angenrheidiol yn y meysydd hyn.

44. Mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o ddatblygiad cynaliadwy trwy eu gofal am amgylchfyd yr ysgol a'u gwaith mewn daearyddiaeth.

45. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol yn dda ac yn ddiweddar mae darpariaeth fwy strwythuredig yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiadau yn y maes.

46. Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn elfen nodweddiadol o'r ddarpariaeth mewn pynciau megis hanes, daearyddiaeth, celf a cherdd. Yn ogystal, hybir y diwylliant Cymreig trwy ganu a dawnsio a gweithgareddau eraill yn ymwneud â mudiad yr Urdd. Datblyga'r disgyblion ymwybyddiaeth briodol o ddiwylliannau eraill.

47. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion yn Gymraeg a Saesneg yn effeithiol a llwydda i gyrraedd ei nod o alluogi disgyblion i fod yn hyderus wrth ddefnyddio'r ddwy iaith. Ceir enghreifftiau da o drawsieithu ar frig yr ysgol.

48. Cyflwynir negeseuon moesol yn gyson yn ystod diwrnod ysgol ac mewn gwasanaethau. Mae datblygiad ysbrydol y disgyblion yn cael ei ddatblygu trwy gymryd rhan weithredol yng ngweithgareddau cydaddoli dyddiol a chysylltiadau

â'r Eglwys. Mwy cyfyngedig yw'r cyfleodd i adfyfyrio'n dawel ar y profiadau y maent yn eu derbyn ar draws y cwricwlwm.

49. Rhoddir pwyslais da ar weithgareddau allgyrsiol ac mae'r disgyblion yn elwa o'r profiadau hyn. Maent yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau cyson yn ymwneud â mudiad yr Urdd. Ceir clwb pêl-droed a rhoddir cyfle i'r disgyblion fynychu clwb drama.

50. Gwneir defnydd da o ymweliadau ac ymwelwyr i atgyfnerthu gweithgareddau a chyfoethogi addysg y disgyblion. Mae amrywiaeth o bobl o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i siarad gyda'r disgyblion am eu gwaith a'u profiadau ac i gynorthwyo gyda darllen a chwaraeon. Caiff y disgyblion brofiadau gwerthfawr wrth ymweld â mannau megis Castell Henllys a Diwrnod y Crefftau yng Nghanolfan y Celfyddydau.

51. Gosodir gwaith cartref yn gyson yn y ddau gyfnod allweddol, a chaiff y gweithgareddau effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad y disgyblion.

52. Mae gan yr holl ddisgyblion fynediad cyfartal i ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm ac i bob agwedd ar fywyd yr ysgol.

53. Mae'r rhieni yn gefnogol iawn ac mae perthynas dda rhyngddynt a'r ysgol. Roedd y mwyafrif llethol o'r holiaduron a ddychwelwyd yn datgan eu bod o leiaf yn fodlon â safonau gwaith eu plant a'r gwerthoedd a hyrwyddir gan yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn codi symiau da o arian er mwyn prynu adnoddau i'r ysgol. Gwnaethpwyd bron i £7,000 o elw mewn un noswaith eleni pan gynhaliwyd ocsiwn a drefnwyd ganddynt yn Aberystwyth.

54. Mae'r rhieni yn fodlon iawn ar yr wybodaeth a dderbyniant oddi wrth yr ysgol trwy lythyr, cyfarfodydd ac adroddiadau. Mae Llawlyfr yr Ysgol yn gynhwysfawr ac mae hwn ynghyd ag adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn cwrdd â'r gofynion statudol; mae'r ysgol hefyd yn darparu pecyn cyn-ysgol gwerthfawr ar gyfer rhieni'r plant dan bump. Mae mwyafrif y rhieni wedi arwyddo'r Cytundeb Cartref/Ysgol, ac mae'r ysgol yn cyd-fynd â'i gofynion statudol.

55. Ceir cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r gymuned. Gwahoddir y gymuned i ymuno yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn codi arian tuag at ystod helaeth o elusennau. Adroddir am holl weithgareddau a gorchestion yr ysgol yn fisol yn ei cholofn yn 'Y Ddolen', y papur bro lleol.

56. Mae gan yr ysgol gysylltiadau agos gyda'r Ysgol Feithrin a oedd tan yn ddiweddar yn defnyddio ystafell yn yr ysgol. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r ysgolion uwchradd lleol trwy gyrsiau pontio sydd yn cynnwys ymweliadau gan staff a disgyblion. Mae gan yr ysgol gytundeb i dderbyn darpar athrawon o Brifysgol Aberystwyth yn flynyddol.

57. Mae'r ysgol yn manteisio ar yr ychydig gyfleoedd sydd ar gael o ran yr amrywiaeth o ddiwydiant yn yr ardal o amgylch yr ysgol. Mae'r disgyblion yn elwa oddi wrth y nifer o ymweliadau a gweithgareddau a geir trwy ymweld â ffermydd a busnesau lleol a'r cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru, Gwasg Gomer, y Llyfrgell Genedlaethol, Clwb Pêl-droed Aberystwyth, Cwmni Arad Goch a theatrau lleol ymysg eraill. Mae athrawon yn mynychu amryw o gyrsiau.

Cwestiwn allweddol 4 : Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

58. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn gradd yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

59. Mae ansawdd y cymorth, y cyfarwyddyd a lles y disgyblion yn dda a llwydda'r ysgol i greu cymuned deuluol agos lle y teimla'r disgyblion yn hapus ac yn ddiogel.

60. Mae'r staff yn adnabod eu disgyblion yn dda a rhoddant ystyriaeth lawn i'w hanghenion personol. Mae'r disgyblion yn gwybod y gallant droi at unrhyw aelod o'r staff ar unrhyw adeg am gymorth a chyfarwyddyd. Mae'r ymdrechion i godi hunan-barch y disgyblion ac i roi hyder iddynt yn dda. Dethlir llwyddiant mewn amrywiaeth o ffyrdd.

61. Mae'r ysgol yn cynllunio ac yn rheoli gweithdrefnau gofal yn dda ac mae ansawdd gofal bugeiliol y disgyblion yn gryfder amlwg. Ceir ystod helaeth o bolisïau yn ymwneud â'r maes gan gynnwys polisi ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant. Y pennaeth sy'n gyfrifol am amddiffyn plant ac mae'r staff i gyd wedi derbyn tystysgrif am ddilyn cwrs yn ymwneud â cham-drin plant o dan nawdd sefydliad NSPCC.

62. Daw'r nyrs i'r ysgol i siarad gyda disgyblion B6 ynglŷn ag addysg rhyw a chyffuriau. Mae gweithdrefnau mewn lle er mwyn gofalu am ddisgyblion sydd yn anhwylus neu wedi cael damwain. Mae gan aelodau o'r staff dystysgrifau Cymorth Cyntaf. Mae'r cysylltiad ag asiantaethau allanol yn gryf iawn.

63. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer croesawu disgyblion pan ddônt i'r ysgol am y tro cyntaf yn dda. Mae llawlyfr rhieni a llyfryn Cychwyn Ysgol yn ddefnyddiol iawn i rieni o ran gwybodaeth a fydd o gymorth i'r plant newydd setlo'n gyflym. Ceir cysylltiadau cryf gyda'r ysgolion uwchradd ac mae'r broses ar gyfer trosglwyddo disgyblion yn effeithiol.

64. Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cwrdd â gofynion y Côd Ymarfer ac mae'n dda ar y cyfan. Y pennaeth yw'r cyd-gysylltydd AAA, a chaiff ei chynorthwyo'n dda gan yr athrawes AAA sy'n ymweld â'r ysgol. Ceir gweithdrefnau priodol ar gyfer adnabod disgyblion ag AAA yn gynnar.

65. Mae gan yr holl ddisgyblion ag AAA Gynlluniau Addysgol Unigol (CAUau). Cynhwysant dargedau realistig ac mae cyfle i'r rhieni ymwneud yn llawn â'r broses. Mae'r ysgol yn y broses o fabwysiadu system o osod targedau mwy penodol ar gyfer cyfnodau byr o amser er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Rhoddir cymorth da, yn ôl trefn tynnu allan, gan yr athrawes ymweld AAA. Mae'r tasgau a osodir yn y grwpiau tynnu allan yn briodol a chyfatebant ag anghenion y disgyblion yn bennaf. Mae yna gyswllt effeithiol rhwng yr athrawes a'r athrawon dosbarth mewn Saesneg a mathemateg. Mae'r cysylltiadau ag asiantaethau allanol yn rhai priodol.

66. Mae gan yr ysgol Gyngor Ysgol ac yn ddiweddar datblygwyd menter ddiddorol "Llais Y Plentyn", sy'n rhoi cyfleon da i ddisgyblion fynegi barn am nifer o agweddau o fywyd ysgol.

67. Mae gan yr ysgol reolau a gweithdrefnau llwyddiannus ynglŷn ag ymddygiad a bwlio. Mae'r strategaethau ar gyfer sicrhau lefelau o bresenoldeb da yn llwyddiannus.

68. Mae'r staff yn ymorol o'r disgyblion yn eu gofal ac mae perthynas dda iawn rhyngddynt. Mae gan yr ysgol bolisïau ar gyfer iechyd a diogelwch ac amddiffyn plant. Y pennaeth yw'r person a enwir sydd â chyfrifoldeb dros faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

69. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

70. Caiff yr ysgol ei harwain yn dda. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad egniol ac ysbrydoledig i gymuned yr ysgol. Mae hi'n sicrhau bod yr ysgol yn cynnig cyfleoedd eang a chyfartal i bob disgybl gwrdd â'i botensial trwy gwricwlwm cytbwys a pherthnasol a thrwy fwydlen dda o weithgareddau all-gwricwlaidd sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion. O dan ei harweiniad, meithrinir amgylchedd gofalgar wedi'i seilio ar ymddiriedaeth a pharch. Caiff nodau ac amcanion yr ysgol eu hyrwyddo'n briodol.

71. Mae staff yr ysgol yn gweithio'n dda fel tîm ac mae'r ymdeimlad cynhwysol sydd yma yn cyfrannu'n effeithiol at y cyd-ymdrech i gynnal a gwella safonau yn yr ysgol. Mae'r berthynas sydd rhwng y staff a'r disgyblion a'u rhieni yn gyfraniad sylweddol at hybu nodau ac amcanion cyffredinol yr ysgol.

72. Mae'r ysgol yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol a phartneriaethau lleol yn dda. Cynhelir partneriaeth dda gyda'r ysgolion uwchradd hynny y mae'r disgyblion yn trosglwyddo iddynt a datblygwyd unedau pontio i hyrwyddo'r trosglwyddiad rhwng CA2 a CA3. Mae'r gwariant diweddar ar ddatblygu adnoddau TGCh newydd yn cyfrannu at y cynnydd a welwyd mewn safonau ers yr arolygiad diwethaf. Mae datblygiad y fenter ar amlygu 'Llais y Dysgwr' yn ei fabandod ond eisoes amlygwyd ymlyniad ysgol-gyfan ati.

73. Mae systemau hunan-arfarnu yn cael eu datblygu'n dda yn yr ysgol. Maent yn cynnig darlun cynhwysfawr a chywir o berfformiad yr ysgol mewn nifer fawr o agweddau a thrwy dynnu ar nifer o ffynonellau a chyfraniadau. Trwy'r broses hunan-arfarnu, caiff arweinyddion pwnc gyfle i fonitro safonau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb a chynnig cyngor ar y meysydd sydd angen eu datblygu. Mae gan arweinyddion pwnc ymwybyddiaeth dda o'r cryfderau a'r gwendidau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, er nad ydynt wedi cofnodi hyn yn ffurfiol. Serch hynny, hyd yma, nid yw'r cysylltiad rhwng y broses hunan-arfarnu a'r broses cynllunio datblygiad ysgol yn ddigon cadarn.

74. Mae'r CDY yn ddogfen gynhwysfawr sy'n amlygu nifer helaeth o flaenoriaethau addas. Serch hynny, nid yw hi ar hyn o bryd yn ddogfen ddigon strategol sy'n dwyn ar y wybodaeth mae'r ysgol wedi'i chasglu amdani hi ei hun ac yn

manylu'n eglur ar y materion a fyddai'n effeithio'n gadarnhaol ar welliant ysgol o weithredu arnynt.

75. Mae'r ysgol yn gweithredu'n unol â'i pholisi Rheoli Perfformiad a sicrheir darpariaeth hyfforddiant addas a pherthnasol sy'n cwrdd â gofynion datblygiad proffesiynol y staff.

76. Mae'r corff llywodraethol yn un rhagweithiol a gweithreda'r aelodau'n effeithiol iawn er lles yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cwricwlwm ac maent yn wybodus ynglŷn â bywyd yr ysgol ac mae eu hymweliadau cyson yn rhai cynhaliol. Mae'r bartneriaeth rhwng y llywodraethwyr a'r pennaeth yn un cadarn iawn a chânt eu cynnwys mewn pob penderfyniad pwysig ynglŷn â chyfeiriad strategol neu wariant yr ysgol. Maent yn chwarae rôl y 'cyfaill beirniadol' mewn modd addas a sefydlwyd rhaglen ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Mae eu hymwybyddiaeth o faterion ariannol a'u rheolaeth ar gyllideb yr ysgol yn dda iawn. Golyga hyn y gall yr ysgol gynllunio ymlaen yn hyderus dros gyfnod o dair blynedd.

77. Mae'r corff llywodraethol yn cwrdd yn rheolaidd ac mae'n cyflawni ei holl ofynion rheoleiddiol a chyfreithiol.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

78. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a wnaed gan yr ysgol yn yr adroddiad hunan-arfarnu.

79. Mae'r pennaeth, y llywodraethwyr a'r staff yn dangos ymwybyddiaeth dda o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r diwylliant hunan-arfarnu yn cael ei feithrin yn dda ac eisoes sicrhawyd bod y staff a'r llywodraethwyr yn ymwneud ag agweddau o'r broses hon. Ymgynghorwyd yn ffurfiol â rhieni'r ysgol drwy holiadur ac mae'r berthynas agored rhwng yr ysgol a'r corff rhieni yn un buddiol tu hwnt.

80. Hyd yma, ni ffurfiolwyd y broses hunan-arfarnu er mwyn mapio'n eglur y gweithgareddau sydd angen i reolwyr yr ysgol ymwneud â nhw dros gyfnod estynedig ac ni ddefnyddir canlyniadau'r hunan-arfarniad i lywio'r blaenoriaethau yn y CDY mewn modd digon cadarn.

81. Mae'r CDY tymor-hir yn ddogfen gynllunio gynhwysfawr sy'n cynnwys nifer o flaenoriaethau priodol ar gyfer yr ysgol. Mae'r cynllun yn cynnwys amserlenni, targedau ansoddol a meintiol ar gyfer y dyfodol a hefyd meini prawf llwyddiant. Caiff blaenoriaethau eu costio'n lled ofalus a'u cefnogi drwy ddyrannu adnoddau'n ddigonol. Nid yw'r CDY yn ei ffurf bresennol yn cynnig arweiniad digon manwl ynglŷn â sut y mae nifer o'r blaenoriaethau yn mynd i gael eu gwireddu ac nid oes digon o ymwybyddiaeth staff gyfan ynglŷn â'i chynnwys na'r cyfeiriad y mae'r cynllun yn ei osod.

82. Mae'r pennaeth yn cynnig dadansoddiad manwl o ganlyniadau profion asesu'r disgyblion, gan gynnwys canlyniadau profion gwaelodlin yn y blynyddoedd cynnar, asesiadau athrawon a phrofion CC yn CA2. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o brofion safonedig mewn iaith a mathemateg i adnabod anghenion disgyblion. Mae'r disgyblion yn CA2 yn ymwybodol o'r targedau ansoddol a

osodwyd iddynt ac yn gyffredinol, caiff y rhain ddylanwad cadarnhaol ar eu cynnydd.

83. Mae rheoli perfformiad yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar yr ysgol. Mae'r broses yn fodd effeithiol o adnabod anghenion staff a cheisir cymhathu'r anghenion personol gyda'r anghenion ehangach sydd yn y CDY. Mae hyfforddiant staff wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

84. Mae'r adroddiad hunan-arfarnu a luniwyd gan yr ysgol cyn yr arolygiad o safon dda. Mae'n ddogfen sy'n rhestru cryfderau'r ysgol yn eglur ac yn nodi'r meysydd hynny sydd ar y gweill gan yr ysgol er mwyn eu gwella. Mae lle i ddatblygu ymhellach y modd y dadansoddir a dehonglir y ffrwd o wybodaeth sydd gan yr ysgol i dynnu arni gan anelu at fod yn fwy hunan-heriol.

85. Ym mhob un o'r saith cwestiwn allweddol, mae'r tîm arolygu yn cytuno â'r farn a gynigiodd yr ysgol. Mewn perthynas â'r pynciau, penderfynodd y tîm arolygu osod gradd yn is na'r hyn a ddyfarnwyd gan yr ysgol i fathemateg yn CA2, fel arall roedd barn y tîm yn gytun â barn yr ysgol.

86. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf. Aethpwyd i'r afael yn drwyadl â'r holl faterion allweddol a llwyddwyd i symud yr ysgol yn ei blaen mewn perthynas â phob un.

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon yw'r arweinwyr a'r rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig

87. Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â'r farn a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

88. Mae gan yr ysgol athrawon a staff cefnogi sy'n meddu ar gymwysterau addas. Mae'r ysgol hefyd yn manteisio'n dda ar athrawon teithiol a rhan-amser sy'n cefnogi gyda'r Gymraeg, cerddoriaeth ac addysg anghenion arbennig.

89. Mae'r staff addysgu yn cyd-weithio'n dda gyda'r staff cynnal er budd y disgyblion. Maent yn gwneud defnydd da o adnoddau sy'n hyrwyddo dysgu'r disgyblion. Mae pob dosbarth wedi'i adnoddi gyda bwrdd gwyn rhyngweithiol a chaiff hwn ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi'r dysgu a'r addysgu'n gyson. Mae'r ardal a neilltuwyd ar gyfer plant dan bump hefyd wedi'i adnoddi'n dda a rhydd gyfle i blant ddysgu mewn amgylchedd symbylus a deniadol. Mae'r gwariant a neilltuwyd ar gyfer offer mawr yn y blynyddoedd cynnar wedi profi i fod yn effeithiol. Caiff y plant gyfle rheolaidd i'w defnyddio gan hyrwyddo'u dysgu o fewn chwe maes y canlyniadau dymunol. Mae'r gefnogaeth a roddir gan y weinyddes feithrin yn nosbarth y plant lleiaf yn gyfraniad effeithiol at drefniant y dosbarth hwnnw ble ceir ystod oedran plant derbyn hyd at Flwyddyn (B) 2.

90. Mae'r arweinyddion pwnc yn ymwneud a'u rôl mewn modd cydwybodol a threfnus. Ar y cyfan, mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r hyn sy'n digwydd ar draws yr ysgol yn eu meysydd cyfrifoldeb a chânt gyfle i fonitro'r cynllunio, darpariaeth a deilliannau o fewn y meysydd hynny. At ei gilydd, mae ganddynt grebwyll da o'r agweddau sydd angen eu datblygu o fewn eu pynciau cyfrifoldeb, er nad yw'r agwedd hon wedi'i ffurfioli ddigon.

91. Mae gan yr ysgol ddigon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran ac, yn gyffredinol, pob pwnc. Mae llawer o'r rhain o ansawdd da. Yn anffodus, oherwydd diffyg gofod yn gyffredinol yn yr ysgol, ond yn arbennig yn nosbarthiadau CA2, nid yw eu hargaeledd a'r modd y cânt eu cadw, bob adeg yn cyfrannu at ddefnydd effeithiol gan y disgyblion. Mae'r diffyg gofod hwn hefyd yn golygu bod unig goridor yr ysgol yn cael ei orlethu gan offer addysg gorfforol a chotiau disgyblion. Nid yw'r olwg gyntaf hon yn gydnaws â'r ymdeimlad o ddathlu addysg disgyblion a geir yn yr ysgol.

92. Caiff yr adeilad ac iard chwarae'r ysgol eu cadw'n dda ac yn lân. Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar y gofod chwarae sydd o amgylch y prif adeilad. Mae cyngor yr ysgol wedi sicrhau nifer o newidiadau gweledol sy'n cyfrannu at fwynhad y disgyblion yn ystod eu cyfnodau egwyl. Mae addasiadau diweddar wedi gwella'r adeiladau yn sylweddol. Mae'r rhain wedi darparu ardal adnoddau ac ystafell ar gyfer plant meithrin a gwneir defnydd da ohonynt.

93. Mae poblogaeth bresennol yr ysgol wedi gordyfu'r gofod sydd yn y neuadd ar gyfer sesiynau torfol o gyd-addoli a hefyd y defnydd a wneir ohoni ar gyfer gwersi addysg gorfforol. Mae'r defnydd dychmygus o arddangosiadau o waith y disgyblion a deunyddiau dysgu eraill yn creu amgylchedd addysgol ysgogol.

94. Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ac yn caffael adnoddau yn unol â'i blaenoriaethau a'i thargedau addysgol. Mae'r arweinyddion pwnc yn adolygu ac yn arfarnu anghenion a defnydd o'r adnoddau yn flynyddol.

95. Ceir defnydd effeithiol iawn o'r amgylchedd lleol, y gymuned a safleoedd addysgol fel amgueddfeydd i gyfoethogi dysgu'r disgyblion. Cynyddir hyn ymhellach gan gyfraniadau ymwelwyr â'r ysgol, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau arbenigol fel Archif y Sir.

96. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Safonau a gyflawnir mewn Pynciau a Meysydd Dysgu

Cymraeg

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol.

Nodweddion da

Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwrando'n astud ar storïau a chyflwyniadau. Maent yn awyddus i ymateb a chymryd rhan mewn trafodaethau. Mae'r mwyafrif yn mynegi eu hunain yn dda gan ddefnyddio ystod dda o eirfa. Mae'n drawiadol iawn pa mor gyflym y daw disgyblion, sydd â'r Gymraeg yn ail-iaith iddynt, yn hyddysg ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith.

Mae sgiliau darllen y mwyafrif o ddisgyblion CA1 a CA2 yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau darllen a gallant ateb cwestiynau'n hyderus am brif nodweddion cynnwys y llyfrau maent yn eu darllen.

Ar draws CA1, datblyga'r mwyafrif sgiliau ysgrifennu da. Mae'r mwyaf galluog yn B1 a B2 yn ysgrifennu gyda mwy a mwy o annibyniaeth wrth gyflwyno gwaith gan gynnwys disgrifiadau diddorol o eraill, llythyron, newyddion a storïau. Mae llawer o'u

hysgrifennu yn dangos ymwybyddiaeth dda o gystrawen brawddegau a phatrymau iaith.

Mae'r mwyafrif o ddisgyblion ar draws CA2 yn datblygu sgiliau siarad da. Gofynnant ac atebant gwestiynau gan ddangos llawer o ddiddordeb wrth siarad am eu gwaith a gwahanol nodweddion yn ymwneud â bywyd ysgol. Gall y rhan fwyaf o ddisgyblion B3 a B4 gynnig barn a mynegi agweddau yn ystod trafodaethau yn y dosbarth yn ymwneud â bwlio tra bod mwyafrif o ddisgyblion B5 a B6 yn trafod elfennau o lyfr stori'r dosbarth yn effeithiol.

Mae safonau darllen y mwyafrif yn dda ac mae darllen ychydig o'r disgyblion hŷn o safon dda iawn. Mae disgyblion ar draws y cyfnod allweddol yn darllen yn gywir ac yn aml gyda mynegiant da. Ar lefelau priodol, maent yn trafod cymeriadau a nodweddion llyfrau sy'n apelio atynt. Mae nifer o'r disgyblion yn elwa wrth gymryd rhan mewn cwisiau llyfrau yn y sir ac maent wedi ennill clod am eu hymdrechion. Defnyddia'r mwyafrif o'r disgyblion hŷn eu sgiliau darllen mewn modd priodol wrth gasglu gwybodaeth o gyfeirlyfrau a ffynonellau eraill.

Ar draws y cyfnod allweddol datblyga safonau'r ysgrifennu'n dda ac mae mwyafrif y disgyblion yn cyflawni gwaith da. Ysgrifennant ar draws y cwricwlwm ac at ddibenion gwahanol gan gynnwys storïau, llythyron personol a ffurfiol, dyddiaduron, adroddiadau a rheolau. Ceir enghreifftiau da o ysgrifennu barddoniaeth wrth i ddisgyblion B3 a B4 ganolbwyntio ar y cysyniad o "hapusrwydd" ac wrth i'r disgyblion hyn gyfleu eu dehongliadau o "ofn". Mae enghreifftiau o waith ysgrifennu nifer fach o'r disgyblion hyn o safon uchel, yn dangos gwreiddioldeb a dychymyg. Ar draws y cyfnod allweddol, datblyga'r mwyafrif afael dda ar gonfensiynau ysgrifennu a gwna ddisgyblion B5 a B6 ddefnydd da o baragraffau yn eu gwaith.

Mae llawysgrifen y disgyblion yn amrywiol. Ceir nifer o enghreifftiau o safon dda ond ar y cyfan, mae'n foddhaol.

Diffygion

Nid oes yna unrhyw ddiffygion amlwg.

Mathemateg

CA1 - Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

CA2 -Gradd 3: Nodweddion da yn gorbwyso diffygion

Nid yw canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol.

Nodweddion da

Yn CA1, gall disgyblion gyfrif a threfnu rhifau un a dau ddigid a'u defnyddio i gwblhau symiau adio a thynnu elfennol. Gall disgyblion adnabod rhifau odrif ac eilrif, a dyblu a haneru rhifau yn gyflym. Gall disgyblion hynaf CA1 ddarllen rhifau i fyny at 1,000 a gallant esbonio'n hyderus werth lle gwahanol ddigidau o fewn y rhif.

Mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag unedau mesur safonol, darnau sylfaenol o arian a chyfeiriadau. Gall y rhan fwyaf y disgyblion enwi siapiau syml dau a thri-dimensiwn yn gywir.

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae disgyblion yn medru cyfrifo'n sydyn wrth wneud mathemateg y pen a medrant egluro'n dda y dulliau a ddefnyddiant i ddod at ateb.

Medr disgyblion hynaf yr ysgol gymhwyso'u dealltwriaeth fathemategol i gyfrifo uchder coeden yn lled gywir.

Yn CA2, mae disgyblion iau yn gwybod eu rhifau i fyny at 1,000 a gallant adalw patrymau lluosi'n gyflym a hyderus. Mae gan y disgyblion hynaf wybodaeth dda o brosesau rhif ac mae eu strategaethau i ddelio â mathemateg y pen wedi cael eu datblygu'n dda. Gall y disgyblion hynaf a mwy galluog drosi ffracsiynau yn ddegolion a lluosi a rhannu degolion gyda 10 a 100. Maent yn gyfarwydd â rhifau negyddol a sgwâr. Erbyn diwedd CA2, mae gan y disgyblion mwy galluog afael dda o dablau lluosi a medrant gymhwyso'r wybodaeth hon i luosi rhifau dau a thri digid.

Mae disgyblion yn gyfarwydd ag unedau safonol o fesuriadau metrig. Gallant amcangyfrif a chyfrifo mesuriadau hyd, pwysau ac amser yn hyderus. Mae gan y disgyblion wybodaeth dda o onglau, gwyddant eu henwau a medrant fesur onglau yn gywir.

Mae disgyblion yn casglu a chyflwyno data at amrywiol ddibenion. Gall y disgyblion mwy galluog ddehongli data, gan ffurfio casgliadau yn seiliedig arnynt.

Diffygion

Yn CA1, mae cyflwyniad y gwaith yn llyfrau'r disgyblion yn gaeth wrth daflenni. Golyga hyn fod medrau gosod swm ar bapur y disgyblion yn danddatblygedig.

Ar ddiwedd CA2 ansicr yw gwybodaeth mwyafrif o'r disgyblion ynglŷn â rhai meysydd o'r cwricwlwm megis tebygolrwydd, cyfrifo arwynebedd ac algebra.

Nid yw medrau ymchwilio nifer dda o'r disgyblion wedi'u datblygu'n ddigonol.

Hanes

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol.

Nodweddion da

Yn CA1, datblyga'r disgyblion eirfa hanes dda trwy astudio nifer o elfennau yn ymwneud â bywyd 'slawer dydd yn eu hardal a thu hwnt. Trwy ddefnyddio lluniau ac arteffactau, datblygant wybodaeth dda am deganau plant tua hanner canrif yn ôl. Cymharant hwy â theganau eu hunain yn effeithiol.

Datblygant ddealltwriaeth dda o sut mae bywyd y cartref wedi newid trwy astudio bywyd cartref dros gan mlynedd yn ôl a chanolbwyntio ar hen gegin, bwyd a golchi dillad. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'r gwahaniaeth y mae trydan wedi gwneud i fywydau bob dydd.

Gwnânt ddefnydd da o ymweliad gŵr lleol a fu'n siarad am elfennau o'i fywyd pan oedd yn blentyn, gan gynnwys bywyd ysgol i dynnu cymariaethau da â'u bywydau hwy. Datblygant ddealltwriaeth dda o sut mae cardiau pen-blwydd wedi newid dros amser.

Ar draws CA2, gwna ddisgyblion ddefnydd da o'u hymweliad â Chastell Henllys i gyfoethogi eu dealltwriaeth o fywyd yn oes y Celtiaid. Mae gan ddisgyblion B3 a B4 ddealltwriaeth dda o amodau byw a chartrefi yn ystod y cyfnod. Gwyddant paham yr adeiladwyd y bryngaerau mewn mannau arbennig ac maent yn ymwybodol o swyddogaeth milwyr fel rhan o'r llwyth.

Mae gan ddisgyblion B5 a B6 ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd y llwyth a'r gwahanol fath o bobl oedd yn perthyn iddi a'u swyddogaeth. Dangosant sgiliau ymchwil da a gwnânt ddefnydd da o'u sgiliau TGCh wrth ddod o hyd i wybodaeth am ddathliadau'r Celtiaid. Trafoda disgyblion B6 bwysigrwydd gwaith archaeolegwyr yn effeithiol trwy ganolbwyntio ar eu cyfraniad i dealltwriaeth o'r cyfnod.

Mae disgyblion ar draws CA2 wedi astudio digwyddiadau'r Ail Ryfel Byd a dangosant ddealltwriaeth dda o ba mor anodd oedd bywyd i bobl yr adeg honno gan gynnwys yr angen am ddogni bwyd a dillad.

Deallant arwyddocâd bygythiad y bomio a'r rhesymau dros symud plant o'r dinasoedd. Canolbwyntiant yn dda ar yr efaciwîs a dangosant ddealltwriaeth dda o'u teimladau trwy ysgrifennu llythyron dychmygol yn cyfeirio at eu profiadau.

Mae'r disgyblion hŷn yn ymwybodol o'r ffynonellau y gellid eu defnyddio i ddod o hyd i wybodaeth am fywyd yn ystod y rhyfel. Trafodant gyfraniad pobl sy'n cofio bywyd yn ystod y rhyfel a defnyddiant dystiolaeth o luniau, posteri a phapurau newydd o'r cyfnod i gyfrannu at eu dealltwriaeth.

Gwna'r mwyafrif o ddisgyblion B5 a B6 ddefnydd da o linell amser i ddangos eu hymwybyddiaeth o gronoleg y cyfnodau o dan sylw yn rhaglen waith CA2.

Diffygion

Nid oes yna unrhyw ddiffygion amlwg.

Celf

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol.

Nodweddion da

Ar draws y ddau gyfnod allweddol, ar lefelau priodol, gwna ddisgyblion ddefnydd da o'u llyfrau braslunio wrth gofnodi a chynllunio.

Yn CA1, gwna'r disgyblion ddefnydd da o ystod o ddefnyddiau, offer a thechnegau.

Caiff y disgyblion fudd wrth astudio gwaith amrywiaeth o artistiaid enwog gan gynnwys gwaith Augustus John a Van Gogh. Dangosant ymwybyddiaeth dda o ansawdd a thrafodant elfennau o'u gwaith yn effeithiol.

Canolbwyntiant yn effeithiol wrth greu ystod o waith *collage* gan ddefnyddio ystod o ddefnyddiau gan gynnwys teils polysteirin. Defnyddiant glai yn dda wrth greu platiau ac maent wedi addurno'r gwaith gorffenedig yn ddeniadol iawn. Medrant ddefnyddio paent yn effeithiol wrth greu portreadau o safon dda.

Ar ôl astudio gwaith ystod eang o artistiaid, datblyga disgyblion B3 a B4 ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cefndiroedd mewn lluniau. Arbrofant yn effeithiol wrth greu cefndiroedd eu hunain. Gwnânt ddefnydd priodol o raglen gyfrifiadurol mewn perthynas â'r gwaith. Manteisiant yn dda ar y cyfle i weithio gydag artist lleol wrth ganolbwyntio ar hanfodion portreadau cyn creu hunan-bortreadau a phortreadau o ffrindiau o safon dda.

Mae disgyblion ar frig yr ysgol wedi cynhyrchu portreadau trawiadol o'r Iesu yn dilyn gwaith ymchwil manwl ganddynt o sut y cafodd ei ddarlunio ar hyd y canrifoedd gan artistiaid mawrion.

Mae'r disgyblion B5 a B6 yn dangos dealltwriaeth dda o waith artistiaid Cymreig megis Peter Prendergast a Kyffin Willams. Siaradant yn hyderus wrth gymharu nodweddion ac arddull gwaith y ddau. Dangosant sgiliau da wrth ddefnyddio inc i efelychu gwaith Prendergast a chyllell *pallet* ac amrywiaeth o liwiau wrth ddefnyddio gwaith Williams fel ysbrydoliaeth. Ceir gwaith gorffenedig o safon dda gan y mwyafrif.

Mae disgyblion ar draws CA2 yn defnyddio clai yn effeithiol yn eu gwaith tri-dimensiwn. Mae disgyblion B3 a B4 wedi creu crochenwaith diddorol tra gweithia disgyblion B5 a B6 yn effeithiol gyda chlai wrth greu teils o safon dda yn cyfleu gwahanol batrymau yn ymwneud â'r byd natur. Ar draws y cyfnod allweddol mae disgyblion wedi cyflwyno gwaith printio sgrin o safon dda.

Diffygion

Nid oes yna unrhyw ddiffygion amlwg.

Technoleg gwybodaeth

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

Mae'r arolygwyr yn cytuno â hunan-arfarniad yr ysgol.

Nodweddion da

Erbyn diwedd CA1 a CA2, mae'r disgyblion yn medru defnyddio ystod eang o raglenni i gefnogi'u dysgu ar draws y cwricwlwm. Yn CA1, maent yn medru llwytho rhaglenni a chyrchu ffeiliau a gadwyd ganddynt yn flaenorol. Mae'r disgyblion yn CA2 yn adeiladu ar y medrau hyn a dengys y disgyblion hŷn ymwybyddiaeth dda o reolaeth ddisg. Medrant greu a chyrchu ffolderi sy'n cynnwys eu gwaith gan gadw eu ffeiliau yn drefnus. Dengys disgyblion o bob gallu ac oed gynnydd da yn eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc.

Yn CA1, mae'r disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a rhaglenni graffeg yn hyderus gan wneud defnydd da o'r adnoddau i drin eu testun gwreiddiol. Medrant amrywio maint a lliw y testun ac amrywio'r teclynnau tynnu llun mewn pecyn graffeg yn gwbl annibynnol i greu lluniau trawiadol. Yn eu gwaith ar fodelu, mae'r disgyblion ar hyd y cyfnod allweddol yn gallu archwilio gêm antur a defnyddio pecynnau iaith a mathemateg sy'n gydnaws â'u gallu.

Yn CA2, mae mwyafrif y disgyblion yn adeiladu'n effeithiol ar eu medrau blaenorol. Gallant weithio'n bwrpasol ac yn hyderus gydag ystod dda o galedwedd a meddalwedd.

Mae'r mwyafrif yn medru cyrchu'r we gan ganfod gwybodaeth sy'n berthnasol i'w hastudiaethau o fewn themâu yn hanes, daearyddiaeth ac addysg grefyddol. Maent yn gwneud penderfyniadau synhwyrol wrth ddewis a dethol y wybodaeth a gall nifer o ddisgyblion dynnu testun neu ddelweddau o'r we i'w gosod yn eu gwaith eu hunain.

Mae'r disgyblion ar frig y cyfnod allweddol yn gallu defnyddio rhaglen Logo i lunio gweithdrefnau sy'n tynnu lluniau rhai siapiau rheolaidd ac i ddilyn llwybr gan osod cyfarwyddiadau cyfeiriol. Maent hefyd yn medru defnyddio rhaglen cronfa ddata i gynrychioli a dehongli gwybodaeth a gasglwyd mewn arbrofion gwyddonol.

Mae disgyblion CA2 yn defnyddio e-bost i gysylltu ag ysgolion eraill i rannu a gofyn gwybodaeth am eu harferion yn yr ysgol.

Diffygion

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

Addysg gorfforol

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

At ei gilydd, mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cydfynd â barn yr ysgol.

Nodweddion da

Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r disgyblion yn ymroi'n egniol i'w gweithgareddau a dangosant ymwybyddiaeth dda o ofod. Maent yn drefnus wrth osod a chasglu adnoddau ac mae'r rhan fwyaf wedi'u gwisgo'n addas ar gyfer eu gweithgaredd. Yn CA1, mae'r disgyblion yn dangos medrau da wrth dderbyn a phasio pêl a chaiff y medrau hyn eu datblygu'n dda ar hyd CA2.

Yn CA1, mae'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn canolbwyntio ar eu gweithgaredd. Maent yn ymroi'n dda i fireinio a gwella eu medrau wrth ddal a sboncio pêl ac maent yn gweithio'n dda mewn grwpiau a chydweithredant wrth wneud gwaith par. Maent yn dechrau datblygu medrau cystadlu mewn grwpiau a deallant fod cydweithio yn cyfrannu at lwyddiant y pâr neu'r grŵp. Mae'r disgyblion yn dechrau dod i ddeall manteision gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Gwyddant fod ymarfer corff yn bwysig er lles y galon ac maent hefyd yn sylweddoli y gall cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon fod yn hwyl ac yn weithred gymdeithasol.

Yn CA1, gall y disgyblion adfyfyrio ar eu perfformiad eu hunain a cheisio ei wella. Yn CA2, maent yn medru adnabod a disgrifio cryfderau a gwendidau eu perfformiad eu hunain a pherfformiad eraill yn dda.

Mae'r disgyblion ar frig CA2 yn ymateb yn dda ac yn greadigol i symbyliadau cerddorol mewn gweithgareddau dawns. Mae nifer ohonynt yn symud yn osgeiddig gan greu patrymau a symudiadau sydd yn gweddu'n dda gyda naws y gerddoriaeth. Maent yn medru gwerthuso'u perfformiad eu hunain a dangosant barch wrth eraill ddadansoddi perfformiadau ei gilydd. Mae'r disgyblion yn elwa'n wrth sylwi ar arfer da eraill o fewn y dosbarth ac ânt ati i fireinio'u symudiadau'u hunain yn sgil hyn.

Mae'r disgyblion yn y ddau gyfnod allweddol yn elwa o ystod eang y gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol. Cânt gyfle i wella'u medrau pêl-droed gyda sesiynau hyfforddi gan gynrychiolwyr o Glwb Pêl-droed Aberystwyth. Yn y gweithgareddau hyn, dengys y disgyblion y gallu i ganfod gofod a chyd-weithio fel tîm.

Diffygion

Nid oes yna unrhyw ddiffygion amlwg.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Ymfalchïa staff a llywodraethwyr yr ysgol yng nghanfyddiadau'r arolygwyr fod yr ysgol yn gymuned deuluol lle darperir addysg dda gyda nodweddion rhagorol. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod disgyblion yn hapus a diogel ac yn dangos parch ac ymwybyddiaeth o anghenion eraill gan gyfrannu'n dda at y diwylliant o brysurdeb a diwydrwydd o fewn y dosbarth. Ceir cryfder o ran ymddygiad ac ymagweddau'r disgyblion ac mae'r ysgol yn cyrraedd y nod o ddarparu profiadau helaeth a

chyfleoedd eang a chyfartal i bob disgybl gwrdd â'i botensial. Roeddem yn hapus nodi fod medrusrwydd y disgyblion o ran dwyieithrwydd yn nodwedd ragorol ynghŷd â darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Elfen bwysig o'r canfyddiadau oedd fod y staff yn adnabod eu disgyblion yn dda gan roddi ystyriaeth lawn i'w hanghenion personol. Nodir ymroddiad a medrusrwydd y staff cyfan a'u bod yn fodelau rôl o safon uchel gydag ansawdd yr addysgu yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna'r disgyblion. Cydnabuwyd fod y staff yn gweithio'n dda fel tîm a cheir cydymdrech i gynnal a gwella safonau.

Rydym yn arbennig o falch y cydnabuwyd y bartneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r llywodraethwyr, a bod y berthynas rhwng y staff, disgyblion a'r rhieni yn gyfraniad sylweddol at hybu nodau ac amcanion cyffredinol yr ysgol. Amlygwyd, yn ogystal, cyfraniad ein Cymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Croesawyd y ffaith i'r ysgol gynnal safonau uchel ers yr arolygiad diwethaf gan wneud datblygiad pendant mewn technoleg gwybodaeth ar draws yr ysgol. Trwy'r systemau Rheoli Perfformiad a hunanarfarnu mae cryfderau a gwendidau'r ysgol wedi eu hadnabod ac fe fydd gweithredu argymhellion yr arolygwyr yn rhoi her ychwanegol i ni ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae trafodaeth wedi cychwyn yn barod o ran sicrhau cyfleon o fewn y cynlluniau gwaith i'r disgyblion ddatblygu eu medrau dysgu. Yn bynciol rhoddwn flaenoriaeth ar ddatblygu profiadau disgyblion CA2 ym mathemateg, byddwn yn sicrhau cysondeb yn ein systemau marcio ac fe fydd CDY mwy strategol yn fodd i weithredu'r uchod ac unrhyw wendidau pellach. Bydd angen mewnbwn allanol wrth weithredu yr argymhelliad o ran diffyg gofod yn deillio o or-dyfiant poblogaeth bresennol yr ysgol.

Lle bo'n gymwys, gwahoddir sylwadau'r rhieni ar gynllun gweithredu'r ysgol tra bydd y llywodraethwyr yn trafod a nodi unrhyw ddatblygiadau mewn cyfarfodydd tymhorol. Bydd adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i'r rhieni yn cofnodi'r cynnydd a wneir yn dilyn yr arolygiad.

Atodiad A

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd
Math o ysgol	Ysgol gynradd gymunedol
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Llanrhystud Aberystwyth Ceredigion
Côd post	SY23 5AT
Rhif ffôn	01974 202230

Pennaeth	Miss Anwen M James
Dyddiad penodi	Medi 1995
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Huw Morgan
Arolygydd Cofrestredig	Mr Aled Evans
Dyddiadau'r arolygiad	19-21 Hydref 2004

Atodiad B

Data a dangosyddion yr ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion		3	14	8	7	9	12	14	67

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.4

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	22:1
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	22
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad				
Tymor	**D**	**CA1**	**CA2**	**Ysgol Gyfan**
Haf 2004	92.5	96.6	96.0	96.30
Gwanwyn 2004	96.0	97.7	93.2	95.45
Hydref 2003	96.6	96.9	96.4	96.65

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	2
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

Atodiad C

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd Cyfnod Allweddol 1

Canlyniadau Asesiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004	Nifer y disgyblion yn B2	6
Gan fod nifer y disgyblion cymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir.		

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiaith) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	83	Yng Nghymru	80

Diwedd Cyfnod Allweddol 2

Canlyniadau Asesiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2004			Nifer y disgyblion yn B6									12
Canran y disgyblion ar bob lefel												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6
Saesneg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	8.3	0	16.7	16.7	58.3	
		Cenedl.	0.5	0.1		0.4	0.7	5.0	16.4	46.1	30.4	0.1
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	8.3	0	0	8.3	25	58.3	
		Cenedl.	0.5	1.2		0	0	3.5	12.6	42.2	36.8	0
Cymraeg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	8.3	0	8.3	8.3	33.3	41.7	
		Cenedl.	1.0	0.0		0.4	0.7	3.3	17.1	48.9	27.8	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	8.3	0	8.3	0	0	8.3	66.7	8.3	
		Cenedl.	1.2	1.1		0	0	2.4	15.2	48.6	30.2	0
Mathemateg	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	8.3	0	16.7	33.3	41.7	
		Cenedl.	0.4	0.1		0.3	0.5	3.4	17.2	46.3	31.4	0.1
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	8.3	0	0	8.3	41.7	41.7	
		Cenedl.	0.5	1.4		0	0	3.3	15.3	42.9	35.5	0
Gwyddoniaeth	Asesiad Athro	Ysgol	0	0	0	0	8.3	0	8.3	41.7	41.7	
		Cenedl.	0.4	0.1		0.3	0.3	1.4	10.7	50.0	36.5	0
	Prawf/Tasg	Ysgol	0	0	0	8.3	0	0	0	66.7	25	
		Cenedl.	0.5	1.3		0.0	0.0	0.7	7.7	50.7	38.7	0

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemtaeg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiaith)			
yn ôl Asesiad Athro		**yn ôl Prawf**	
Yn yr ysgol	75	Yn yr ysgol	83
Yng Nghymru	72	Yng Nghymru	72

D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

Atodiad Ch

Sail dystiolaeth yr arolygiad

- Bu tîm o dri arolygydd yn arolygu'r ysgol dros gyfnod o dau ddiwrnod a hanner gan gynnwys arolygydd lleyg.
- Y Pennaeth oedd yr enwebai, ac fe gymerodd rôl estynedig yn ystod yr arolygiad.
- Arolygwyd 25 o wersi neu rannau o wersi, yn ogystal â detholiad o waith ymarferol ac ysgrifenedig y disgyblion.
- Gwelwyd gweithgareddau cofrestru, addoli ar y cyd a gweithgareddau allgyrsiol.
- Cynhaliwyd trafodaethau gydag ystod eang o staff a disgyblion ynghylch eu gwaith.
- Dadansoddwyd yr holl ddogfennau a gyflwynwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd cyn yr arolygiad gyda'r staff, rhieni a'r corff llywodraethol.
- Mynegodd 39 o rieni eu barn trwy gyfrwng yr holiaduron a ddosbarthwyd a mynychodd 25 o rieni y cyfarfod a gynhaliwyd cyn yr arolygiad.
- Adrodd yn ôl i'r staff a'r corff llywodraethol ar y prif ganfyddiadau.

Atodiad D

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod Tîm	Cyfrifoldebau	Pynciau
A.Evans (Arolygydd Cofrestredig)	Cyd-destun, crynodeb ac argymhellion, cwestiynau allweddol 1, 5, 6 a 7	Mathemateg, technoleg gwybodaeth, addysg gorfforol
B. Jones	Cwestiynau allweddol 2, 3 a 4	Cymraeg, hanes, celf
J. Davies	Cyfraniadau at bob un o'r saith cwestiwn allweddol	

Cydnabyddiaeth

Dymuna'r arolygwyr ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni'r ysgol am eu cydweithrediad yn ystod yr arolygiad.

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H
Tŷ Britannic
Ffordd Britannic
Llandarsi
Castell Nedd
SA10 6JQ

Arolygiad dan Adran 10
Deddf Arolygiadau Ysgolion 1996

YSGOL GYNRADD WIRFODDOL MYFENYDD
Llanrhystud
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 5AT

gan

Mr Aled Evans
79226

Adroddiad Cryno i Rieni

Rhif yr Ysgol: 667-3058

Dyddiad yr Arolygiad: 19-21 Hydref 2004

Arolygwyd Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben yr adroddiad yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Cynlluniwyd y broses o arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd i roi mwy o wybodaeth i rieni am ysgolion eu plant.

Cynhaliwyd arolygiad o Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd rhwng 19-21 Hydref 2004. Fe'i cynhaliwyd gan dîm annibynnol o dri o arolygwyr, dan arweinyddiaeth Mr Aled Evans. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, corff statudol annibynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond sy'n cael ei ariannu ganddo.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth a'r cyfraniad a wna'r ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd
Math o ysgol	Ysgol gynradd gymunedol
Ystod oedran y disgyblion	4-11
Cyfeiriad yr ysgol	Llanrhystud Aberystwyth Ceredigion
Côd post	SY23 5AT
Rhif ffôn	01974 202230

Pennaeth	Miss Anwen M James
Dyddiad penodi	Medi 1995
Cadeirydd y Llywodraethwyr	Mr Huw Morgan
Arolygydd Cofrestredig	Mr Aled Evans
Dyddiadau'r arolygiad	19-21 Hydref 2004

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2004

Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad cryno hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod na chaiff unrhyw ddarnau a ddyfynnir eu haddasu a'u bod yn hytrach yn dilyn y gwreiddiol air am air, ac y cydnabyddir ffynhonnell a dyddiad y dyfyniadau.

Mae copïau o'r adroddiad cryno hwn ar gael gan yr ysgol. Dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996, mae'n rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na'r gost o atgynhyrchu ar eraill sy'n gwneud cais am gopi o'r adroddiad.

Cyd-destun

Natur y darparwr

Mae'r ysgol gynradd wirfoddol hon yn gwasanaethu pentref Llanrhystud a'r ardal wledig sydd yn union o'i gwmpas, er y daw canran arwyddocaol o'r disgyblion o ardal ehangach. Disgrifia'r datganiad hunanarfarniad yr ardal fel un nad yw'n ffyniannus nac o dan anfantais economaidd a rhyw dau y cant yn unig o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol rhad ac am ddim. Adeiladwyd estyniad at yr ysgol yn ystod 2001 er mwyn helaethu'r gofod ar gyfer plant dan bump.

Daw ychydig dros draean o'r disgyblion o gartrefi Cymraeg ac yn ôl y wybodaeth a ddarparwyd gan yr ysgol, mae 89 y cant o'r boblogaeth ysgol yn medru'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol. Yn unol â pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol (AALl) ar gyfer ysgolion Categori A, y Gymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol ond anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf union chwe blynedd yn ôl.

Mae 67 o ddisgyblion amser-llawn (pedair i 11 oed) yn yr ysgol ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi dilyn addysg gyn-ysgol. Mae'r rhif hwn yn gymharol gyson ers pum mlynedd. Mae rhyw 20 y cant o'r disgyblion amser llawn wedi'u hadnabod fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) er nad oes gan yr un ohonynt ddatganiad o'i anghenion. Rhennir y disgyblion i dri dosbarth.

Mae tri aelod o staff addysgu amser-llawn, gan gynnwys y pennaeth sy'n addysgu am dridiau o'r wythnos. Mae dwy athrawes ran-amser, y naill ar gyfer addysgu disgyblion ag AAA a'r llall i ryddhau'r pennaeth ar gyfer cyfnodau digyswllt.

Nod yr ysgol yw anelu at gydnabod 'urddas a gwerth pob plentyn, i ddarparu cyfleoedd cyfartal a'r addysg orau bosib fel bod pob plentyn yn cyflawni'i botensial ymhob agwedd o'i ddatblygiad o fewn cymuned ofalgar a Christnogol'.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

Ymhlith y blaenoriaethau a restrir yn y cynllun datblygu ysgol (CDY) cyfredol cyfeirir at y materion canlynol:

- Datblygu'r drefniadaeth ar gyfer plant dan bump.
- Amlygu *Llais y Dysgwr* ar draws yr ysgol.
- Cryfhau prosesau hunan-arfarnu ysgol-gyfan.
- Datblygu llyfrynnau asesu.
- Sefydlu cysylltiadau Ewropeaidd ag ysgolion eraill.

Prif Ganfyddiadau

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd yn ysgol dda. Darperir addysg dda gyda rhai nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol wedi parhau i wella safonau ers yr arolygiad diwethaf. Cytunodd y tîm arolygu â'r barnau a wnaed gan yr ysgol yn y ddogfen hunan-arfarnu mewn perthynas â'r saith cwestiwn allweddol. Cytunwyd â rhan fwyaf o farnau'r ysgol am y safonau a gyflawnir gan y disgyblion yn y chwe phwnc a

arolygwyd. Nid oedd yr arolygwyr yn cytuno â'r farn a ddyfarnwyd gan yr ysgol ar gyfer mathemateg yng Nghyfnod Allweddol (CA) 2.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn allweddol		Gradd yr arolygiad
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3	Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4	Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7	Pa mor effeithlon y mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

Safonau

- Mae safonau cyflawniad disgyblion yn y pynciau yn ystod gwersi a arsylwyd fel a ganlyn:

Safonau cyflawniad y disgyblion	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Canran ar bob gradd	0	100	0	0	0

- Mae safonau cyflawniad y disgyblion yn sylweddol uwch na thargedau Cymru gyfan Llywodraeth Cynulliad Cymru i 95 y cant o safonau i fod yn foddhaol a 50 y cant i fod yn dda neu'n well.

- Yn yr arolygiad hwn, arolygwyd chwe phwnc yn CA1 a CA2. Mae safonau cyflawniad y disgyblion fel a ganlyn:

Pwnc	CA1	CA2
Cymraeg	2	2
Mathemateg	2	3
Hanes	2	2
Technoleg gwybodaeth	2	2
Celf	2	2
Addysg gorfforol	2	2

- Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion, ac mae plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

- Yn ôl canlyniadau 2004 mae canran y disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau disgwyliedig cenedlaethol ar ddiwedd cyfnod allweddol yn uwch na'r

cyfartaleddau sirol a chenedlaethol yn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg yn CA2 ond yn is yn y Gymraeg. O gymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol gan ddefnyddio'r dangosydd prydau ysgol am ddim mae perfformiad disgyblion yn CA1 a CA2 yn is na'r canolrif yn y dangosydd pwnc craidd (DPC).

- Mae disgyblion yn y tri dosbarth yn cyflawni safonau da yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Mae mwyafrif y disgyblion yn gallu cymhwyso'r medrau allweddol yn lled hyderus ond maent yn fwy ansicr wrth gymhwyso'u medrau dysgu. Mae eu medrau astudio, gwella'u gwaith eu hunain a threfnu a chyflwyno gwaith yn danddatblygedig.
- Yn CA1 a CA2, mae safonau a chynnydd disgyblion yn y medrau allweddol siarad, ysgrifennu, darllen, rhifedd a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda. Cyflawnant radd 1 mewn safonau gwrando.
- Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau dwyieithrwydd da.
- Mae'r rhifau sylweddol sydd â'r Gymraeg yn ail-iaith iddynt yn dod i fedru'r iaith yn rhugl ac yn naturiol. Mae hyn yn nodwedd rhagorol.
- Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at y diwylliant o brysurdeb a diwydrwydd sy'n nodweddu'r tri dosbarth yn yr ysgol. Mae eu hymddygiad yn dda iawn ac yn gryfder yn yr ysgol.
- Mae'r disgyblion a osodwyd ar gofrestr AAA yr ysgol yn cyflawni safonau priodol ac mae amryw ohonynt yn symud oddi ar y gofrestr wedi iddynt gwrdd â'r targedau a osodwyd ar eu cyfer.
- Dros y tri thymor diwethaf mae'r cyfartaledd presenoldeb yn dda ar 96.3 y cant.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

- Ceir addysgu cyson dda ar draws y ddau gyfnod allweddol. Yn ystod yr arolygiad, roedd ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Ansawdd yr addysgu	**Gradd 1**	**Gradd 2**	**Gradd 3**	**Gradd 4**	**Gradd 5**
Canran ar bob gradd	5	90	5	0	0

- Mae ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn sylweddol uwch na thargedau Llywodraeth Cynulliad Cymru 95% o wersi yn foddhaol a 50% yn dda neu well.
- Mae'r addysgu yn dda ymhob dosbarth a chaiff y disgyblion ystod o brofiadau dysgu o safon dda. Mae ansawdd yr addysgu yn elfen bwysig yn y cynnydd a wna'r disgyblion a'r safonau maent yn eu cyflawni.
- Mae strwythur a threfniadaeth y gwersi yn dda ac maent yn datblygu ar gyflymder da. Rhennir amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion ar ddechrau gwersi a thrafodir cyraeddiadau yn ystod y sesiwn gloi.
- At ei gilydd, nid yw'r ffocws ar waith gwahaniaethol ar gyfer disgyblion o wahanol alluoedd yn ddigon manwl ac anghyson yw safon y marcio.

- Mae ansawdd cyffredinol yr asesu yn dda. Yn y pynciau craidd asesir cyflawniadau a chynnydd disgyblion yn gyson. Mae canlyniadau ystod dda o brofion diagnostig yn cael eu dadansoddi'n dda. Mae'r gweithdrefnau asesu a chadw cofnodion yn y pynciau sylfaen yn cael eu datblygu.
- At ei gilydd, mae cynllunio ar gyfer y cwricwlwm yn briodol. Ceir cynlluniau gwaith o safon dda yn y mwyafrif o bynciau. Yn y Gymraeg a'r Saesneg, serch hynny, nid yw'r cynlluniau ysgol-gyfan yn ddigon manwl. Nid yw'r cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau allweddol ar draws y pynciau yn ddigon manwl i sicrhau bod y disgyblion cael y profiadau angenrheidiol yn y meysydd hyn.
- Mae'r cwricwlwm ar gyfer y plant dan bump oed yn hyrwyddo'n llwyddiannus y Canlyniadau Dysgu Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.
- Mae ansawdd y cymorth, y cyfarwyddyd a lles y disgyblion yn dda a llwydda'r ysgol i greu cymuned deuluol agos.
- Mae ansawdd y ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cwrdd â gofynion y Côd Ymarfer ac mae'n dda ar y cyfan.
- Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda iawn. Caiff profiadau'r disgyblion eu helaethu drwy ystod o weithgareddau allgyrsiol a diwylliannol. Mae'r ysgol yn cwrdd â'r gofynion statudol ar gyfer darparu cyfnodau dyddiol o addoli ar y cyd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Caiff yr ysgol ei harwain yn dda a hyrwyddir y nodau a'r hamcanion a osodwyd iddi yn briodol. Mae'r pennaeth yn cynnig arweiniad egniol ac ysbrydoledig i gymuned yr ysgol.
- Mae staff yr ysgol yn gweithio'n dda fel tîm ac mae'r ymdeimlad cynhwysol sydd yno yn cyfrannu'n effeithiol at y cydymdrech i gynnal a gwella safonau.
- Mae'r corff llywodraethol yn un rhagweithiol ac yn gweithredu'n effeithiol iawn. Mae'r llywodraethwyr yn monitro'r cwricwlwm, maent yn wybodus ynglŷn â bywyd yr ysgol ac mae eu hymweliadau cyson yn rhai cynhaliol.
- Mae'r diwylliant hunan-arfarnu yn cael ei feithrin yn dda ac eisoes sicrhawyd bod y staff a'r llywodraethwyr yn ymwneud ag agweddau o'r broses hon. Hyd yma, ni ffurfiolwyd y broses hunan-arfarnu er mwyn mapio'n eglur y gweithgareddau sydd angen i reolwyr yr ysgol ymwneud â nhw dros gyfnod estynedig ac ni ddefnyddir canlyniadau'r hunan-arfarniad i lywio'r blaenoriaethau yn y CDY mewn modd digon cadarn.
- Mae'r CDY tymor hir yn ddogfen gynllunio gynhwysfawr sy'n cynnwys nifer o flaenoriaethau priodol ar gyfer yr ysgol. Serch hynny, nid oes digon o ymwybyddiaeth staff gyfan ynglŷn â'i gynnwys na'r cyfeiriad y mae'r cynllun yn ei osod.
- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.
- Er bod digon o adnoddau ar gyfer pob ystod oedran, oherwydd diffyg gofod yn gyffredinol yn yr ysgol, ond yn arbennig yn nosbarthiadau CA2, nid yw eu

hargaeledd a'r modd y cânt eu cadw, bob adeg yn cyfrannu at ddefnydd effeithiol gan y disgyblion.

- Caiff yr adeilad ac iard chwarae'r ysgol eu cadw'n dda ac yn lân. Mae poblogaeth bresennol yr ysgol wedi gordyfu'r gofod yn y neuadd ar gyfer sesiynau torfol o gyd-addoli a hefyd y defnydd a wneir ohoni ar gyfer gwersi addysg gorfforol.

Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol yn y meysydd a arolygwyd, mae angen i'r staff a'r corff llywodraethol:

A1 gynnal y safonau da, a gwella'r safonau boddhaol drwy roi sylw i'r diffygion a nodir yng nghorff yr adroddiad;

A2 sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd strwythuredig a fydd yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau dysgu, *h.y. medrau astudio, medrau gwella'u gwaith eu hunain, medrau trefnu a chyflwyno gwaith yn annibynnol*;

A3 gysoni'r ymagweddiad ysgol-gyfan at wahaniaethu a marcio gwaith disgyblion.

A4 ddatblygu'r modd cyfredol y mae rheolwyr yn cynllunio gwelliant ysgol gan sicrhau bod y CDY yn ddogfen fwy strategol sy'n arddel cyswllt cadarnach â'r broses o hunan-arfarnu;

A5 barhau i wella digonolrwydd yr adeiladau, yn arbennig o safbwynt yr agweddau canlynol:

- y defnydd a wneir o'r neuadd ar gyfer gwersi addysg gorfforol ac ar gyfer cynulliadau ysgol-gyfan;
- gofod storio adnoddau;
- argaeledd yr adnoddau ar gyfer disgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am newid ei gynllun datblygu presennol i ymgorffori camau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion cyn pen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, yn dangos yr hyn y mae'r ysgol yn mynd i wneud ynglŷn â'r argymhellion. Caiff y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i'r llywodraethwyr, y pennaeth, staff, disgyblion a rhieni am eu cydweithrediad a'u cwrteisi trwy gydol yr arolygiad.